Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Associated Community Training Ltd
# Tŷ Imperial
# 12-14 Trade Street
# Caerdydd
# CF10 5DT

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 01/10/2012**

## Cyd-destun

Cwmni hyfforddi sydd wedi'i berchnogi'n breifat yng Nghaerdydd yw Associated Community Training (ACT). Yn Awst 2011, daeth yn hysbys mai hwn oedd y darparwr hyfforddiant yn y gwaith mwyaf yng Nghymru, yn sgil dyfarnu contract Llywodraeth Cymru iddo. O ganlyniad, mae twf cyflym wedi bod yn nifer y dysgwyr, y partneriaid a'r isgontractwyr. Mae'r darparwr yn awr yn cyflwyno darpariaeth dysgu yn y gwaith ledled Cymru.

Mae ACT yn canolbwyntio'n benodol ar y dysgwr sy'n anos ei gyrraedd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag ysgolion gyda'r grŵp oedran 14-16. Mae ACT yn cyflwyno'r rhaglenni canlynol ar draws 19 o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru:

- Ymgysylltu â Hyfforddeiaethau, lefel 1 a phont i gyflogaeth
- Camau at gyflogaeth, Llwybrau at Waith a Dysgu â ffocws ar waith
- Prentisiaethau Sylfaen
- Prentisiaethau Modern
- Prentisiaethau Uwch
- Dysgu Hyblyg

Mae'n arbenigo yn y llwybrau hyfforddi canlynol:

- Gweinyddu Busnes
- Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant
- Peirianneg
- Trin Gwallt
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Rheoli
- Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion

Adeg yr arolygiad, roedd tua 5,600 o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ymgorffori tua 5,000 o ddysgwyr ychwanegol ac isgontractwyr ychwanegol yn ystod y 10 mis diwethaf. Er gwaethaf y newidiadau hyn, mae data nas gwiriwyd yn dangos tuedd ar i fyny yn y cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau. Mae gan y darparwr strategaethau da ar waith ar gyfer integreiddio llythrennedd, rhifedd ac Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDFE) mewn rhaglenni hyfforddi. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn barhaus ac nid yw tiwtoriaid yn defnyddio'r rhain yn effeithiol yn eu gwaith gyda dysgwyr ar hyn o bryd. Nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn elwa o adborth adeiladol ar eu gwaith.

Mae'r uwch dîm rheoli'n mynd ati'n dda i gynllunio ar gyfer ymgysylltu â staff, dysgwyr ac isgontractwyr ychwanegol. Y dysgwr yw'r canolbwynt amlwg o hyd ar gyfer popeth a wna'r darparwr. Mae prosesau sicrhau ansawdd ar waith ond mae angen eu datblygu ymhellach ar draws pob is-gontractwr.

Mae'r darparwr yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid a'i isgontractwyr. Mae cyfathrebu da rhwng yr holl gyfranogwyr, sydd wedi helpu'r darparwr yn sylweddol i ehangu ei ddarpariaeth, ac wrth fynd heibio, wedi rhoi'r cyfleoedd ehangach i ddysgwyr wneud cynnydd.

Er bod y farn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 1: Safonau yn ddigonol o ystyried y cynnydd da a wnaeth y darparwr wrth ymgymryd â chontract newydd arwyddocaol a'r duedd gyson ar i fyny o wella deilliannau ar gyfer dysgwyr, y farn ar gyfer perfformiad cyffredinol yw da.

### Rhagolygon gwella

Mae capasiti'r darparwr i wella yn dda oherwydd:

- bod gan y Rheolwr Gyfarwyddwr weledigaeth a strategaeth glir i ddeall yr hyn y mae'n ei gymryd i weithio tuag at ddod yn gyflwynwr hyfforddiant rhagorol;
- bod strategaethau ar gyfer gwella ansawdd a chyflwyno hyfforddiant wedi cael eu rhoi ar waith; a'r
- dysgwr yw'r ffocws clir ym mhopeth a wna'r darparwr.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, rhaid i’r darparwr:

A1 sicrhau bod llythrennedd, rhifedd, ADCDFE a strategaethau’r iaith Gymraeg a’i diwylliant yn cael eu cymhwyso’n gyson ar draws yr holl ddarpariaeth, yn cynnwys isgontractwyr;

A2 rhoi’r cynllun marcio llythrennedd ar waith ar draws y ddarpariaeth;

A3 gwella’r addysgu a’r dysgu trwy gael tiwtoriaid i adlewyrchu gwahanol anghenion dysgwyr yn eu cynlluniau gwersi;

A4 sicrhau bod systemau a gweithdrefnau ansawdd yn gynhwysol a chyson ar draws yr holl isgontractwyr; a

A5 mynd i’r afael â’r argymhellion sy’n weddill o’r adroddiad arolygu blaenorol.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Mae Estyn yn gofyn i’r darparwr fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad ac integreiddio eu camau arfaethedig yn eu cynllun gwella i’r Adran Addysg a Sgiliau. Bydd arolygydd cyswllt Estyn yn monitro’r cynnydd y mae’r darparwr yn ei wneud yn erbyn yr argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill eu cymhwyster fframwaith llawn arnynt yn ddigonol. Yn 2009 i 2010, roedd cyfraddau cyrhaeddiad ar bob un o'r rhaglenni prentisiaeth ychydig uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r data diweddaraf nas gwiriwyd yn dangos tuedd ar i fyny ar draws bron pob un o'r rhaglenni hyfforddi.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau eu rhaglen hyfforddi yn brydlon, gyda rhai eithriadau mewn Rheoli, Gweinyddu Busnes ac Addysgu a Dysgu.

Rhwng 2008 a 2010, aeth nifer sylweddol o ddysgwyr ar raglenni Adeiladu Sgiliau ymlaen i gyflogaeth, neu ddechrau hyfforddiant lefel uwch.

Mae bron pob un o'r dysgwyr presennol yn gwneud cynnydd da. Maent yn cymryd rhan yn dda yn y sesiynau hyfforddi i ffwrdd o'r gwaith, maent yn dangos diddordeb ac wedi'u symbylu, ac yn cydweithio'n dda. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ennill medrau gwerthfawr o ran medrau ymarferol a medrau sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos medrau ymarferol priodol a gwybodaeth am theori yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith. Mae llawer o ddysgwyr yn ennill ystod o dystysgrifau a chymwysterau ychwanegol, yn cynnwys rheoli prosiect, hylendid bwyd, trafod â llaw ac ymwybyddiaeth o dementia. At ei gilydd, amrywiol yw gwybodaeth dysgwyr am ADCDFE. Nid yw llawer ohonynt yn elwa ar atgyfnerthu materion gan diwtoriaid yn rheolaidd yn ystod sesiynau ymarferol a theori.

Mae safon y gwaith ym mhortffolios CGC y dysgwyr yn dda, yn ddestlus ac wedi'i gyflwyno'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mae safon medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn rhy amrywiol. Caiff pob dysgwr asesiad cychwynnol ac mae ganddynt gynllun dysgu unigol sy'n nodi eu hanghenion medrau sylfaenol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o ddysgwyr yn elwa ar adborth ysgrifenedig manwl gan aseswyr a fydd yn eu galluogi i wella eu perfformiad yn y dyfodol. Nid yw tiwtoriaid ac aseswyr yn cywiro camgymeriadau mewn sillafu, atalnodi a gramadeg yn rheolaidd. Mae llawer o ddysgwyr yn mynegi eu hunain yn dda ac yn gweithio'n dda gyda'u cyfoedion, eu cyflogwyr a'u hyfforddwyr. Mae rhai dysgwyr ar draws yr holl raglenni yn gweithio tuag at fedr hanfodol ar lefel uwch na'r hyn sy'n ofynnol yn eu rhaglen.

Mae'r darparwr yn defnyddio ystod eang o strategaethau a mentrau i hyrwyddo gwybodaeth dysgwyr am yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. Fodd bynnag, nid yw staff hyfforddi'n defnyddio'r rhain yn ddigon da bob amser i annog dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac o ganlyniad, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu neu'u hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Lles: Da**

Mae pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith, rhag unrhyw gam-drin corfforol neu eiriol. Mae gan ddysgwyr agwedd gadarnhaol tuag at gadw'n iach trwy fentrau fel gweithdai iechyd i ddynion a chlybiau brecwast.

Mae'r darparwr yn cefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o hunan-niweidio trwy weithdai arbenigol a thrwy eu cysylltiad â phroses fentora lwyddiannus. Mae gan y darparwr wasanaeth cwnsela effeithiol iawn. Mae dysgwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gwneud cynnydd da yn eu rhaglenni hyfforddi o ganlyniad.

Mae dysgwyr, cyflogwyr, staff hyfforddi ac aseswyr yn dangos parch at ei gilydd. Mae perthynas dda rhwng staff a dysgwyr. Fe wnaeth dysgwyr yn ymddwyn yn dda bron ym mhob un o'r sesiynau a arsylwyd. Fe wnaeth staff hyfforddi ymdrin yn effeithiol â dysgwyr oedd â'r potensial i achosi aflonyddwch. Roedd dysgwyr yn cymryd rhan yn dda, ac yn mwynhau eu dysgu. Fodd bynnag, nid oedd rhai dysgwyr yn ymgymryd yn llawn yn y sesiwn.

At ei gilydd, mae presenoldeb yn dda ar bob rhaglen. Mae gan y darparwr systemau da ar waith i fonitro presenoldeb. Mae staff hyfforddi'n mynd ati'n effeithiol i herio presenoldeb hwyr dysgwyr.

Mae'r darparwr wedi rhoi strategaethau da ar waith ar gyfer llais y dysgwr, sy'n cynnwys fforymau dysgwyr ac mae'n arddangos y camau a gymerwyd ar fyrddau 'fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni'.

Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ganolfan a gweithgareddau preswyl, yn cynnwys canolfan Awyr Agored ACT a agorwyd yn ddiweddar, sef Ynys Hwyl, yn datblygu cyfathrebu a hyder personol da. Mae dysgwyr yn cymryd rhan yn effeithiol mewn sesiynau hyfforddi ar hawliau dynol, dinasyddiaeth a medrau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer dechrau ym myd gwaith. Mae'r darparwr yn cynnal cyfres o weithdai sy'n helpu i ddatblygu medrau bywyd bob dydd dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau cymunedol fel clybiau gwau i wneud eitemau ar gyfer Elusen 'Helping Hands' a pharatoi bwyd ar gyfer canolfannau cymunedol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r darparwr yn bodloni anghenion dysgwyr, y gymuned a chyflogwyr yn dda. Mae'n darparu ystod dda o raglenni cyn-16 ac ôl-16. Mae'r darparwr yn canolbwyntio'n benodol ar ddysgwyr sydd wedi ymddieithrio o ddysgu. Mae'r dysgwyr hyn yn achosi problem fawr i'r darparwr a'i bartneriaid, yn enwedig yn Ne Ddwyrain Cymru. O ganlyniad, dyfeisiwyd rhaglenni i alluogi ymyrraeth gynnar gyda darpar ddysgwyr Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NACH).

Mae'r darparwr yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Theithwyr i ddarparu cymorth dwyieithog da ar gyfer y rhai sy'n dilyn ei raglen cynorthwyydd addysgu.

At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau sylfaenol a Sgiliau Hanfodol Cymru (SHC) yn dda. Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth i ddangos bod cynlluniau gwersi yn adlewyrchu canlyniadau asesiadau cychwynnol a phrofion diagnostig yn systematig. Caiff dysgwyr gyfle i ennill SHC ar lefelau uwch na'r hyn sy'n ofynnol gan eu fframwaith. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddysgwyr ennill y medrau ehangach wedi'u datblygu'n llawn.

Rhoddwyd polisi llythrennedd newydd ar waith, ac fe'i cefnogir gan hyrwyddwr llythrennedd a benodwyd yn ddiweddar. Mae hyn yn dechrau dangos canlyniadau yn y darparwr, ond nid yw'n gwbl weithredol ym mhob un o'i isgontractwyr eto.

Ceir dealltwriaeth dda o'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y darparwr, ond mae angen datblygu hyn ymhellach yn ei isgontractwyr. Mae'r darparwr wedi penodi Hyrwyddwr y Gymraeg i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Nid yw'r darparwr wedi cyhoeddi llyfryn ymsefydlu ADCDFE eto, ond mae wedi rhoi cynllun gwersi generig da ar waith ar gyfer ADCDFE ym mhob un o'i raglenni. Fodd bynnag, mewn rhai sesiynau, mae anghysondeb yn y cyflwyno, a chollir cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o ADCDFE ymhellach yn ystod y sesiwn. Mae hyrwyddwr ADCDFE y darparwr wedi cynnal nifer o sesiynau ymwybyddiaeth ADCDFE effeithiol ar gyfer isgontractwyr. Mae'r darparwr a'r isgontractwyr yn arbrofi â Green Impact (sef rhaglen wedi'i hachredu gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr) ar hyn o bryd.

**Addysgu: Da**

Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn meddu ar wybodaeth bynciol a thechnegol dda. Maent yn cefnogi ac yn bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn dda. Mae mwyafrif y staff yn cyflwyno sesiynau cynlluniedig a strwythuredig sy'n cynnwys nodau ac amcanion clir. Caiff ystod eang o ddulliau addysgu a hyfforddi, yn cynnwys clipiau fideo, cyflwyniad llafar, ymarferion papur a thechnoleg gwybodaeth, eu defnyddio'n effeithiol. Ond mewn lleiafrif o sesiynau, ni roddir digon o her i'r dysgwyr mwy abl, ac nid oes digon o gymorth ar gyfer dysgwyr llai abl.

Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn datblygu medrau galwedigaethol a chymwyseddau dysgwyr yn effeithiol. Mewn rhai achosion, mae tiwtoriaid sy'n cyflwyno SHC mewn cymhwyso rhif yn integreiddio datblygiad llythrennedd a phynciau sy'n gysylltiedig â lles yn eu cynlluniau gwersi yn fedrus. Fodd bynnag, collir rhai cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr ymhellach.

Yn gyffredinol, caiff asesiadau eu cynllunio'n dda, ac maent yn mynd ati i annog datblygiad dysgwyr. Mae aseswyr yn rhoi cyfleoedd da i ddysgwyr gyflwyno ac arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'u pwnc. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw'r adborth ysgrifenedig ar waith dysgwyr yn ddigon manwl, ac mae anghysondebau wrth farcio llythrennedd.

Mae aseswyr yn cynnal adolygiadau strwythuredig da sy'n cynnwys mwyafrif y dysgwyr wrth osod eu targedau dysgu eu hunain. Mae aseswyr yn defnyddio adolygiadau'n dda i wneud dysgwyr yn ymwybodol o ba mor dda y maent yn gwneud cynnydd a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae cofnodion yn fanwl ar y cyfan, ac mae dysgwyr yn croesawu'r sylwadau gan eu cyflogwyr. Fodd bynnag, mewn gormod o achosion, er bod cyflogwyr yn rhoi adborth ysgrifenedig ac yn llofnodi dogfennau adolygu, nid ydynt yn cymryd rhan yn llawn yn y cyfarfod adolygu. Mae safon mwyafrif portffolios y dysgwyr yn dda.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r darparwr yn cyfweld â phob un o'r dysgwyr cyn iddynt ymuno â'u rhaglen. Pan fo'n briodol, ac wrth ganolbwyntio ar y ffordd orau ymlaen i'r dysgwr, mae'r darparwr yn cyfeirio dysgwyr at bartneriaid, isgontractwyr neu ddarparwyr eraill.

Mae'r broses ymsefydlu dda i ddysgwyr yn cynnwys esboniad cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau amrywiol y darparwr. Rhoddir 'pecyn croeso' da i bob dysgwr. Mae hwn yn cynnwys llyfryn cyfeirio defnyddiol ar gyfer dysgwyr ar destunau fel cydraddoldeb ac amrywiaeth, cyfrinachedd, diogelu a delio â bwlio. Mae hefyd yn cynnwys manylion am staff y darparwr, a all gefnogi dysgwyr ymhellach; er enghraifft, wrth adrodd am fwlio neu aflonyddwch. Mae manylion am sefydliadau allanol a all roi arweiniad a chymorth ychwanegol yn y pecyn hefyd.

Mae'r darparwr wedi gwneud trefniadau da ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles ei ddysgwyr. Mae'n trefnu rhaglen o destunau sy'n gysylltiedig ag iechyd ar gyfer dysgwyr, sy'n cynnwys iechyd rhywiol ac ymwybyddiaeth o gyffuriau. Mae gan y darparwr ei ganolfan awyr agored ei hun lle mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol sy'n cefnogi eu lles a'u datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gefnogi dysgwyr sydd ag anawsterau personol a chymdeithasol. Mae llawer o'r dysgwyr yn agored iawn i niwed neu wedi ymddieithrio'n fawr. Mae gwasanaeth cwnsela'r darparwr yn cynnig cymorth proffesiynol i ddysgwyr, a lle bo'n briodol, mae'n eu cyfeirio at yr ystod eang o sefydliadau partner i ddarparu cymorth arbenigol.

Rhoddir cymorth priodol ar y cyfan i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid eir i'r afael ag anghenion cymorth dysgwyr, ac ni weithredir yn unol â nhw. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw tiwtoriaid yn ymwybodol o anawsterau neu anableddau unigol dysgwyr na'u hanghenion cymorth ychwanegol.

Mae'r darparwr wedi rhoi gweithdrefnau addas ar waith i nodi a chefnogi anghenion medrau sylfaenol y dysgwyr hynny sy'n gweithio ar lefel mynediad 3, neu'n is. Fodd bynnag, mae'r darparwr yn llai ymwybodol o anghenion cymorth penodol dysgwyr pan fyddant yn gweithio ar lefel 1 neu'n uwch.

Mae gan y darparwr bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae gan y darparwr bolisi priodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'n mynd ati i hyrwyddo ac annog cyfranogi mewn dysgu gan grwpiau o ddysgwyr nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt, yn cynnwys dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig a lleiafrifoedd ethnig. Mae ei ddadansoddi data effeithiol o ddysgwyr o'r grwpiau hyn, yn cynnwys stereoteipio o ran rhyw, yn galluogi'r darparwr i dargedu meysydd ar gyfer recriwtio yn y dyfodol neu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd tangyflawni gan y dysgwyr hyn.

Mae pob un o'r dysgwyr yn gwerthfawrogi diwylliant y darparwr o ddangos parch i'w gilydd, ac i staff a chyflogwyr. Mae'r adolygiadau rheolaidd o ddysgwyr gan aseswyr yn mynd i'r afael yn ddigonol â materion cyfle cyfartal ac amrywiaeth. Fodd bynnag, yn ystod sesiynau hyfforddi, mae tiwtoriaid yn aml yn colli cyfleoedd i atgyfnerthu materion cydraddoldeb ac amrywiaeth gyda dysgwyr ymhellach.

Mae'r amgylcheddau dysgu yn y mwyafrif o'r darparwyr a'r isgontractwyr yn dda. Mae'r adnoddau'n ddigonol ac yn bodloni anghenion dysgwyr yn dda. Mae Academïau Sgiliau'r darparwr yn darparu adnoddau da iawn ar gyfer ystod eang o opsiynau galwedigaethol. Mae'r rhain yn fuddiol iawn ar gyfer y rhai sy'n dod o ysgolion a'r rhai nad ydynt yn barod ar gyfer hyfforddiant i brofi gwahanol lwybrau hyfforddi o dan un to. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau yn addas at eu diben ac yn ddymunol a chroesawgar. Mae gan lawer ohonynt arddangosiadau wal da iawn, sy'n aml yn Gymraeg ac yn Saesneg. Maent yn darparu amgylcheddau cefnogol i annog dysgu. Mewn ychydig iawn o achosion, mewn sesiynau ymarferol, nid oes digon o gyfleusterau golchi dwylo ac nid yw tiwtoriaid yn rhoi digon o sylw i gynnal a chadw da yn yr amgylchedd hyfforddi.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn darparu arweinyddiaeth glir ac mae ganddo weledigaeth a strategaeth glir ar gyfer y cwmni. Mae ef a'r uwch dîm rheoli'n sicrhau bod pob un o'r staff yn glir ynglŷn â'u rôl mewn helpu'r darparwr i fodloni ei amcanion strategol. Bu hyn yn allweddol wrth alluogi'r darparwr i wneud cynnydd da wrth wneud y newidiadau sylweddol i'w sefydliad yn sgil dyfarnu cynnydd mawr yng ngwerth contract y cwmni gan Lywodraeth Cymru yn Awst 2011.

Ceir cyfathrebu da rhwng yr holl reolwyr a'r staff, yn cynnwys gydag is-gontractwyr. Mae'r darparwr wedi sefydlu grwpiau 'ffocws', sy'n cynnwys ei is-gontractwyr, i ddatblygu ei strategaethau allweddol mewn perthynas â safonau a deilliannau dysgwyr, ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r cyfle i nodi a rhannu arfer orau yn rhan o'r gwaith hwn. Mae'r darparwr hefyd wedi manteisio ar y cyfle i nodi a rhannu arfer orau ar draws yr holl ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i'r darparwr arfarnu effaith lawn y gwaith hwn yn effeithiol.

At ei gilydd, caiff perfformiad staff ei reoli'n dda. Mae rheolwyr yn cysylltu targedau perfformiad staff unigol â'u rolau swydd yn effeithiol. Mae rheolwyr yn rhoi cymorth personol da i staff ar bob lefel i'w helpu i wella eu perfformiad. Mae'r darparwr wedi ennill safon aur (2010) Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP). Yn gynharach eleni, cyrhaeddodd y cwmni safle 74 yn y 100 cwmni Bach a Chanolig gorau i weithio iddynt yn The Sunday Times.

Mae'r darparwr yn cyflwyno Bwrdd Llywodraethol arloesol i gynnig her a chymorth i'r uwch dîm rheoli. Fodd bynnag, nid yw'r broses recriwtio'n llawn i'r bwrdd wedi'i chwblhau eto. Felly, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y datblygiad hwn.

Mae'r darparwr yn ymwneud yn weithredol ag ystod gynhwysfawr o flaenoriaethau strategol cenedlaethol a lleol.  Mae'r darparwr yn gweithio'n effeithiol gyda'i bartneriaid strategol i sicrhau bod lefel y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn isel yn yr ardaloedd daearyddol y mae'n cyflwyno hyfforddiant ynddynt.  Mae'r cwmni'n cyflwyno ystod gynhwysfawr o raglenni cyn hyfforddi a hyfforddiant llawn.  Mae gan ei Academïau Sgiliau rôl bwysig yn hyn o beth am eu bod yn cynnig y cyfle i brofi nifer o lwybrau hyfforddi gwahanol o dan un to.

**Gwella ansawdd:  Digonol**

Yn dilyn trefniadau contractio newydd yn Awst 2011, mae'r darparwr yn awr yn gweithio gyda nifer cryn dipyn yn fwy o is-gontractwyr.  Mae'r darparwr wedi adolygu ei weithdrefnau hunanasesu (AHA) a gweithdrefnau eraill.  Fodd bynnag, mae'r darparwr yn parhau i ddatblygu a gwella'r gweithdrefnau i sicrhau cysondeb ar draws yr holl is-gontractwyr.

Mae'r AHA yn gynhwysfawr ond yn ddisgrifiadol iawn ac nid yw'n ddigon arfarnol.  Nid yw'r barnau a luniwyd gan y darparwr yn yr AHA yn cyd-fynd yn agos â'r rhai a luniwyd gan y tîm arolygu.

Mae'r darparwr yn defnyddio adroddiadau dangosfwrdd data'n dda i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol, sy'n cyd-fynd â meincnodau cenedlaethol, ac i wella'i berfformiad.  Fodd bynnag, mae'r AHA yn cynnwys data sy'n ymwneud â chyfraddau cwblhau mewn pryd ar gyfer dysgwyr, sy'n anghywir.

Wrth gynllunio ar gyfer gwelliannau, mae'r darparwr yn casglu ac yn defnyddio ystod eang o wybodaeth gan bartneriaid, rhanddeiliaid allweddol, dysgwyr a chyflogwyr.  Mae'n casglu adborth trwy arolygon, grwpiau ffocws, a chynrychiolwyr ystafell ddosbarth o'r rhan fwyaf o feysydd dysgu.

Mae'r darparwr wedi cyflogi arbenigwr technoleg gwybodaeth (TG) yn ddiweddar i helpu i wella ei systemau data a monitro perfformiad.  Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu beth fydd effaith y system.

At ei gilydd, mae'r darparwr yn rhannu gweithgarwch datblygu staff yn dda gydag is-gontractwyr ac mae hyn yn rhoi cyfleoedd da i'r darparwr a staff ei is-gontractwyr ddatblygu ystod eang o fedrau.  Mae grwpiau ffocws yn rhoi cyfle da i staff nodi a rhannu arfer orau.  Mae staff y darparwr yn cymryd rhan mewn ystod o rwydweithiau, ac maent yn cyfrannu'n dda atynt.  Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn cymryd rhan yn weithredol mewn fforymau a phwyllgorau Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.  Mae'n cynrychioli'r darparwr ar fforymau eraill ochr yn ochr â rheolwyr eraill o ACT.

Yn sgil y cynnydd mewn darpariaeth a'r gwaith gyda mwy o is-gontractwyr, nid yw llawer o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol wedi cael eu bodloni'n llawn eto.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae gan y darparwr rôl ragweithiol wrth weithio gydag ystod briodol o bartneriaid, is-gontractwyr a darparwyr eraill dysgu yn y gwaith.  Dysgwyr yw'r ffocws clir ar gyfer

gweithio mewn partneriaeth yn y darparwr. Mae'r darparwr yn agored, yn dryloyw, yn gefnogol ac yn hyblyg ym mhob agwedd ar ei waith gydag eraill. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod dewis eang o ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr i'w helpu i ddewis a pharatoi ar gyfer eu cyflogaeth neu'u dyheadau addysg bellach yn y dyfodol, gyda'r arweiniad a'r cymorth priodol. Mae'r darparwr a'i bartneriaid yn cydweithio'n dda wrth weithio gyda dysgwyr 14 i 16 oed i gynnig opsiynau galwedigaethol iddynt ochr yn ochr â'u gwaith ysgol academaidd. Bu hyn yn llwyddiant mawr, ac mae dros 300 o ddisgyblion yn cymryd rhan erbyn hyn. Dywed yr ysgolion fod gostyngiad mewn absenoliaeth a bod y disgyblion yn ymddwyn yn well o ganlyniad. Nod cyffredinol y gwaith hwn hefyd yw nodi ac atal y disgyblion hyn rhag dod yn rhai NACH yn y dyfodol.

Mae'r darparwr wedi gwneud cynnydd da wrth dderbyn ei is-gontractwyr ychwanegol. Mae is-gontractwyr yn teimlo'u bod yn cael eu trin fel partneriaid ac maent wedi croesawu'r cymorth sy'n cael ei roi gan y darparwr. Mae hyn wedi eu galluogi i ddechrau gwella eu hansawdd a'u perfformiad eu hunain.

I nodi lefel y cymorth sy'n ofynnol gan eu hisgontractwyr, fe wnaeth y darparwr gynnal asesiad risg o'r holl is-gontractwyr i ddechrau. Bydd effeithiolrwydd y cymorth hwnnw'n cael ei arfarnu cyn bo hir. Mae'r darparwr wedi trefnu cymorth ychwanegol ym mhob un o'r is-gontractwyr ar ffurf grwpiau ffocws ar faterion fel llythrennedd, ADCDFE, yr iaith Gymraeg a'i diwylliant ac, yn ddiweddar iawn, ymglymiad cymunedol. Mae hyn er mwyn sicrhau dull cyson ar draws ei ddarpariaeth. Mae wedi cynnwys yr is-gontractwyr yn ei strategaethau cynllunio a datblygu, yn cynnwys proses yr AHA, er nad yw pob un o'r is-gontractwyr wedi ymgymryd â hyn yn llawn eto. Mae gwaith parhaus gydag is-gontractwyr yn cynnwys cynlluniau i ailgyflwyno asesu cymheiriaid a chynnal arolygiadau byr.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r darparwr yn rheoli ei adnoddau'n effeithiol ar y cyfan.

Mae'r darparwr yn canolbwyntio'n gryf ar hyfforddi a datblygu ei staff. Rhoddir cyfleoedd da i holl staff ACT a'r is-gontractwyr gael hyfforddiant priodol i helpu i wella'u perfformiad. Mae gan y darparwr flaenoriaethau clir ar gyfer datblygiad staff, ac mae ganddo gynllun datblygu staff sefydliadol sy'n nodi amcanion a dulliau cyflwyno'r cwmni i fodloni'r amcanion hyn.

Mae gan staff ar bob lefel brofiad priodol, ac maent yn dangos gwybodaeth dda o'u diwydiannau priodol a gofynion fframweithiau hyfforddi'r dysgwyr. I wneud yn siŵr eu bod yn cyflawni eu rolau'n effeithiol, caiff staff hyfforddi eu paratoi'n dda gyda'r adnoddau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r gymhareb staff i ddysgwyr yn dda yn y rhan fwyaf o lwybrau hyfforddiant, ac mae llawer o enghreifftiau o addysgu tîm gyda chymorth medrau sylfaenol arbenigol i ddysgwyr wedi'u cynnwys.

Mae adnoddau o ansawdd da ar gael i ddysgwyr wrth iddynt fynychu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys cyfle i wneud defnydd da o offer gweithdy a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn y rhan fwyaf o

achosion, mae safon yr offer technoleg gwybodaeth (TG) ar gyfer dysgu yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, cyfyngedig yw'r cyfle i ddefnyddio cyfleusterau TG.

Mae safon adeiladau ac adnoddau cyflogwyr yn dda ar y cyfan. Mae'r darparwr yn monitro hyn yn effeithiol. Mae'r adnoddau hyn o fudd i ddysgwyr gan eu bod yn rhoi profiadau da yn y gweithle da a chyfleoedd asesu da iddynt.

Mae'r darparwr yn rheoli ei gyllid yn dda trwy gyfarfodydd perfformiad ariannol rheolaidd. Mae'r darparwr yn rhoi ystyriaeth dda i gynlluniau ar gyfer gwella ansawdd ei adeiladau a'i adnoddau, gyda ffocws clir ar y budd i'r dysgwr.

At ei gilydd, mae deilliannau dysgwyr yn ddigonol ac mae'r darparwr yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

At ei gilydd, roedd dysgwyr yn gadarnhaol iawn am eu profiad yn ystod eu cyfnod gyda'r darparwr. Cawsant arweiniad cychwynnol da a chymorth da trwy gydol eu hyfforddiant. Un eithriad nodedig yw'r ffaith nad oedd 20% o'r dysgwyr a lenwodd yr holiadur yn teimlo bod eu cyfnod gyda'r darparwr wedi gwella eu rhan yn y gymuned leol. At ei gilydd, byddai bron i 100% o ddysgwyr yn argymell y darparwr hwn i bobl eraill.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Bernard O'Reilly AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Sandra Barnard AEM | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans AEM | Arolygydd Tîm |
| Barnard Hayward AEM | Arolygydd Tîm |
| Stephen Davies AEM | Arolygydd Tîm |
| Christine Hooper AEM | Arolygydd Tîm |
| Sian Farquharson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Caroline Peek | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jennie Hire | Arolygydd Cymheiriaid |
| Susan Scott | Arolygydd Cymheiriaid |
| Megan Dauksta | Arolygydd Ychwanegol |
| Rachel Arnold | Enwebai'r Darparwr |